



Lynne Neagle AC / AM Cadeirydd / Chair
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

17 Chwefror 2017

Annwyl Lynne

Newidiadau i'r cwricwlwm yng Nghymru

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am adolygu sut mae adroddiad yr Athro Graham Donaldson *Dyfodol Llwyddiannus*: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru yn cael ei roi ar waith.

Hoffwn ddiolch ichi hefyd am eich llythyr dyddiedig 26 Ionawr sy'n amlygu am eich canfyddiadau hyd yn hyn.

Diwygio addysg yw ein cenhadaeth genedlaethol a byddaf yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod y rhaglen ddiwygio'n cael ei rhoi ar waith yn dda ac yn brydlon, gan ddysgu yn sgil yr hyn sy'n gweithio yng Nghymru ac ym mhob cwr o'r byd. Ar hyn o bryd, rydym yn dal i fynd drwy gamau cymharol gynnar rhoi'r diwygiadau ar waith.

Rwy'n derbyn pwynt y Pwyllgor mai gweledigaeth gysyniadol i raddau yw'r weledigaeth a gynigiwyd inni gan yr Athro Donaldson. Serch hynny, mae'r Llywodraeth wedi bod yn glir o ran gosod y trywydd ar gyfer y daith a'r fethodoleg ar gyfer cyrraedd pen y daith honno. Mae dysgu yn sgil y gwersi gan awdurdodaethau eraill wrth iddynt hwythau roi eu diwygiadau ar waith wedi bod yn elfen bwysig wrth inni fabwysiadu'r dull hwn. Dyna pam mae gennym rwydwaith o ymarferwyr a phartneriaid eraill sy'n arbenigwyr wrth galon y fethodoleg weithredu yng Nghymru; er mwyn osgoi'r problemau a gafwyd wrth roi diwygiadau ar waith mewn gwledydd eraill.

Bwriedir i'r dull hefyd sicrhau bod canlyniadau ein diwygiadau'n cael eu perchnogi a'u deall yn llwyr gan y sector addysg drwyddo draw a chan y proffesiwn addysgu'n benodol. Wrth wraidd hyn, mae ein nod o ddatblygu system sy'n ei gwella'i hun. Hynny yw, system sy'n camu oddi wrth y drefn a ddilynwyd yn y gorffennol, sef trefn o'r brig i lawr. Yn hytrach na bod y Llywodraeth yn rhoi cyfarwyddyd, yn gorchymyn ac yn cosbi, bydd yn cynnig arweiniad strategol, yn hwyluso ac yn cefnogi. Serch hynny, mae'n golygu hefyd nad oes modd inni wybod pob manylyn am siâp y cwricwlwm terfynol ar hyn o bryd ac rwy'n sylweddoli y bydd rhai rhanddeiliaid yn gweld y drefn newydd yn anghyfforddus ar y dechrau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cefais fy nghalonogi gan y ffaith bod y Pwyllgor yn cytuno â'r dull diwygio hwn ac yn ei gefnogi, ac rwy'n edrych ymlaen at gydweithio â chi i herio'r broses mewn ffordd adeiladol ar bwyntiau allweddol ar hyd y daith ddiwygio.

Dyma fy atebion i'ch sylwadau penodol:

Rhoi gweledigaeth yr Athro Donaldson ar waith

Mae'r Pwyllgor yn credu y bydd y cam ymgysylltu newydd hwn yn hanfodol ac y dylai Llywodraeth Cymru wneud rhagor i gynnig darlun mwy eglur o sut mae pethau'n datblygu ers cyhoeddi adroddiad yr Athro Donaldson. Gallai fod rôl i'r consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol, sef yr 'haen ganol' y cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet ato yn y Pwyllgor, o ran cyfleu hyn.

Rwy'n cytuno â'r Pwyllgor ynglŷn â'r pwynt hwn a byddaf yn gweithio gyda'n partneriaid cyflawni i fynd i'r afael â hyn yn y misoedd nesaf. Rydym yn disgwyl cael Adroddiad yr Adolygiad gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ac yna ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Chwefror ac wedyn byddwn mewn sefyllfa i gyhoeddi ein cynllun cyflawni strategol diwygiedig ym mis Mawrth.

Byddaf hefyd yn cyhoeddi canlyniadau cam cychwynol y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm cyn bo hir. Roedd hwn yn cynnwys datblygu'r egwyddorion strategol lefel-uchel ar gyfer cam nesaf y gwaith. Roedd yr egwyddorion cynllunio hyn yn sail i friff clir ar gyfer cam cynllunio'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, a ddechreuodd ym mis Ionawr, ac sy'n garreg filltir bwysig o ran y cynnydd sydd wedi'i wneud eisoes.

Arweiniad Strategol gan Lywodraeth Cymru

Nododd y Pwyllgor y bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros y misoedd nesaf yn ail-gadarnhau ac yn ail-bwysleisio wrth holl brif bartneriaid cyflawni Llywodraeth Cymru, bod ganddynt rôl arwain ar y cyd er mwyn gwireddu'r weledigaeth sydd yn Dyfodol Llwyddiannus. Mae'r Pwyllgor yn credu y bydd hyn yn amserol ac mae'n argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet ystyried a oes angen i Lywodraeth Cymru lywio hyn a chynnig trywydd strategol mwy eglur, a hynny o bosibl ar y cyd â'r consortia rhanbarthol.

Rwyf wedi datgan yn glir mai diwygio addysg yw ein cenhadaeth genedlaethol. Nod y genhadaeth hon yw sicrhau system addysg sydd gyda'r gorau yn y byd ac sy'n barod i baratoi ein plant a'n pobl ifanc i ffynnu yn wyneb heriau a chyfleoedd yr 21ain Ganrif.

Rwy'n cytuno y dylem fod yn cydweithio â'r consortia rhanbarthol ac rydym wedi bod yn gwneud hynny. Mae'r rhain yn bartneriaid allweddol o ran sicrhau bod y weledigaeth strategol yn cael ei rhannu a'i deall. Rwy'n credu ein bod yn barod gyda'n gilydd am gam nesaf y gwaith datblygu ac mae'r adroddiad drafft gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) wedi cadarnhau wrthyf ein bod ar y trywydd iawn a bod angen inni barhau ar y llwybr hwn. Felly, byddaf yn diwygio ein cynllun cyflawni strategol Cymwys am Oes, gyda'r nod o gyhoeddi dogfen ddiwygiedig ym mis Mawrth a bydd honno'n ailddatgan y weledigaeth. Bydd yn rhoi ffocws i'r agenda ddiwygio ac yn sicrhau bod popeth yr ydym yn ei wneud ym maes addysg yn gwbl gyson â *Dyfodol Llwyddiannus*. Mae ein partneriaid, gan gynnwys y consortia rhanbarthol wedi chwarae rhan lawn yn y broses o ddatblygu'r ddogfen hon.

Eglurdeb a phwrpas rolau'r Ysgolion Arloesi

Mae'r Pwyllgor yn nodi disgwyliad Ysgrifennydd y Cabinet, wrth i'r broses symud at Efen 2, y dylai Arloeswyr deimlo eu bod yn deall yn fwy clir yr hyn sy'n ofynnol ganddynt nag a oedd efallai'n wir yn Efen 1. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati'n rhagweithiol i sicrhau bod y disgwyliad hwn yn cael ei wireddu.

Lansiwyd Efen 2 - cynllunio a datblygu Meysydd Dysgu a Phrofiad - yn ein cynhadledd genedlaethol yn Llandudno fis diwethaf. Roedd y digwyddiad cenedlaethol hwn hefyd yn cynnwys y 25 o ysgolion ychwanegol o bob cwr o Gymru a gyhoeddais ym mis Ionawr.

Dyrannwyd un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad i'r holl Ysgolion Arloesi yn Efen 2 (Celfyddydau Mynegiannol, Iechyd a Lles, Dyniaethau, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Mathemateg a Rhifedd a Gwyddoniaeth a Thechnoleg). Mae angen inni wneud trefniadau er mwyn sicrhau eglurdeb ynghylch rolau a phwrpas, gan gynnwys:

- Bod yr ysgolion, o'r cam datblygu cyntaf, yn bwydo canlyniadau eu gwaith yn ôl i'w cydweithwyr. Mae'r ysgolion hyn hefyd yn awr yn rhan o'r grwpiau Meysydd Dysgu a Phrofiad;
- Briff craidd i'r ysgolion, ynghyd â thasgau clir;
- Rhoddwyd y dasg i'r Ysgolion Arloesi ddatblygu fframwaith drafft ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad erbyn mis Mehefin 2017 ac mae cyfres o weithdai wedi'u sefydlu i bob un o'r meysydd, a chanlyniadau clir wedi'u pennu, i'n tywys i wireddu'r amcan hwn.

Mae trefniadau gwaith rhwng Llywodraeth Cymru a'r consortia i ddatblygu'r cwricwlwm newydd yn effeithiol iawn. Mae gennym arweinyddion yn y consortia rhanbarthol ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad a fydd yn gweithio ochr yn ochr â swyddogion Llywodraeth Cymru i rannu'r broses o hwyluso gweithgorau'r Ysgolion Arloesi.

Drwy rannu'r berchnogaeth ar ddatblygu'r cwricwlwm newydd, byddwn yn gallu sicrhau bod pob ysgol yn cael cymorth ar lefel genedlaethol a rhanbarthol i gynllunio'r cwricwlwm newydd.

Gwersi gan wledydd eraill

Mae'r pwyllgor yn credu y dylai cynllunio a datblygu'r cwricwlwm yng Nghymru gael ei lywio gan brofiadau mewn gwledydd eraill, er enghraifft yr Alban, ond na ddylai fynd ati i'w hefelychu. Mae'r Pwyllgor yn dweud bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi sôn am wahaniaethau penodol rhwng y ffordd y rhoddir y drefn ar waith yng Nghymru ac yn yr Alban a bod cynllunio'r cwricwlwm yma'n rhan o raglen ddiwygio gyfannol. Rydym yn croesawu datblygu'r cwricwlwm ar y cyd â'r hyn y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn eu galw'n ddwy golofn ddiwygio arall y byd addysg, sef addysg gychwynnol i athrawon a datblygu a dysgu proffesiynol. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru am y gwahaniaeth mae'n ei weld yn y dulliau a ddilynnir yng Nghymru ac yn yr Alban.

Rwy'n ymroddedig i ddysgu yn sgil profiadau gwledydd eraill. Un o'r prif wersi i mi o'r Alban ac o fannau eraill dros y byd yw na allwch newid un agwedd ar y system addysg heb edrych yn ofalus iawn ar y cysylltiad rhwng gweddill y system a'r newidiadau rydych yn eu gwneud ac yn eu cefnogi. Os na wnewch chi hyn, mae gwir berygl i'r elfennau nad ydych wedi'u hystyried lesteirio'r newidiadau yr ydych yn ceisio'u cyflwyno.

Dyma pam mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i raglen ddiwygio gyfannol ar gyfer addysg sy'n canolbwyntio ar y cwricwlwm, trefniadau asesu ac atebolrwydd, ochr yn ochr â datblygiad proffesiynol ac Addysg Gychwynnol i Athrawon. Rydym wedi ymrwmo'n benodol i ddiwygio'r cwricwlwm a'n trefniadau asesu ochr yn ochr â'i gilydd. Yn yr Alban, dilynwyd trefniadau mwy llinellol.

Gwers bwysig arall a ddysgwyd gan wledydd eraill yw mai yn ystod y cyfnod gweithredu y bydd y diwygiadau'n colli trywydd. Fel y dywedwyd, dyna pam yr ydym wedi ymgysylltu ag ymarferwyr a'r sector ehangach o'r cychwyn cyntaf a pham mae ymarferwyr wrth galon datblygu'r cwricwlwm drwy gyfrwng dull yr ysgolion arloesi. Gyda'n gilydd, rydym yn gweithio gydag arbenigwyr cenedlaethol a rhyngwladol gan gynllunio er mwyn datblygu cwricwlwm eang, cytbwys, cynhwysol a heriol. Er bod y dull a ddilynwyd yn yr Alban yn un iteraid, i bob golwg, mae wedi bod yn llai cynhwysol o ran ei egwyddorion cynllunio.

At hynny, mae'r haen ganol yn gryfach yng Nghymru, a beirniadwyd yr Alban am y diffyg hwn yn adroddiad yr OECD y llynedd. Yng Nghymru, mae awdurdodau lleol a'u consortia rhanbarthol wedi bod yn rhan o gynllunio'r rhaglen o'r cychwyn ac yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion er mwyn cefnogi'r dull hwn o ddiwygio addysg.

Synergedd rhwng cynllunio'r cwricwlwm a datblygiad proffesiynol athrawon a'u hyfforddiant cychwynnol

Mae'r Pwyllgor yn credu y bydd y 12 i'r 18 mis nesaf, yn ddi-os, yn hollbwysig i'r gwaith datblygu ar y cwricwlwm a dysgu proffesiynol. Bydd y Pwyllgor yn awyddus i fonitro cynnydd yr Ysgolion Arloesi sy'n cyfrannu at waith datblygu'r cynnig dysgu proffesiynol a hefyd i nodi y cynhelir ymgynghoriad cyn haf 2017 ynghylch safonau addysgu proffesiynol newydd. Rhaid i athrawon fod yn barod i gyflwyno'r cwricwlwm newydd, felly rhaid i'r Llywodraeth sicrhau bod cynllunio'r cwricwlwm a datblygu proffesiynol yn cael eu datblygu'n llwyddiannus law yn llaw.

Gallaf gadarnhau bod y meysydd gwaith hyn yn cael eu cynllunio, eu rheoli a'u cyflawni law yn llaw. Maent yn cael eu rheoli o fewn yr un strwythur llywodraethu. Mae'r prif ddibyniaethau rhyngddynt wedi cael eu mapio a'r camau sydd ar waith i'w rheoli'n destun craffu ac adolygu parhaus.

Mae'r Ysgolion Arloesi Dysgu Proffesiynol wedi bod yn ganolog i ddatblygu'r Safonau Addysgu Proffesiynol newydd drwy weithio gyda'r Athro Mick Waters. Mae'r safonau newydd wedi'u cynllunio i fod yn gyson â'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd ac mae'r rhain yn elfen bwysig o'r rhaglen newid a fydd yn cefnogi'r proffesiwn wrth iddo baratoi ar gyfer ei rôl yn y dyfodol. Bydd y safonau newydd yn ffocws ar gyfer addysg gychwynnol i athrawon a dysgu proffesiynol gydol gyrfa.

Mae'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol, a ddatblygwyd mewn gwirionedd ar lwybr carlam a'i ddarparu fis Medi diwethaf, hefyd wedi bod yn faes lle mae'r Ysgolion Arloesi Dysgu Proffesiynol cynnar yn cydweithio â'r ysgolion Arloesi Digidol i ddatblygu dull dysgu proffesiynol lefel-uchel ar gyfer y Fframwaith hwn, gan gydweithio'n agos â'r consortia ac Estyn. Mae'r cydweithio cychwynnol wedi bod yn gadarnhaol iawn a bydd hyn yn sicrhau dolen ddi-fwlch rhwng y Fframwaith a'r dysgu proffesiynol a fydd yn gefn iddo. Gan mai hon fydd y rhan gyntaf o'r cwricwlwm newydd a fydd ar gael, bydd yn cynnig golwg werthfawr ar y dull dysgu proffesiynol mewn perthynas â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad.

Mae grŵp peilot newydd yr OECD sy'n canolbwyntio ar ddatblygu 'Ysgolion fel Sefydliadau Dysgu' hefyd wedi cael ei draed dano. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys Arloeswyr ym maes y Cwricwlwm ac ym maes Dysgu Proffesiynol. Mae'r ysgolion peilot wrthi'n adolygu dulliau ac arfau myfyriol a ddatblygwyd gan yr OECD i roi Ysgolion fel Sefydliadau Dysgu ar waith yng Nghymru. Bydd yr ysgolion hyn yn canolbwyntio i ddechrau ar ddatblygu eu gallu eu hunain i wella cyn iddynt gefnogi ysgolion arloesi eraill a'u partneriaid i ddatblygu'n effeithiol fel sefydliadau sy'n dysgu.

Rydym yn gweithio gyda'r consortia rhanbarthol i sefydlu trefniadau i sicrhau bod arloeswyr dysgu proffesiynol yn gweithio gyda grwpiau'r Meysydd Dysgu a Phrofiad i ddatblygu dulliau a fydd yn gefn i anghenion dysgu proffesiynol wrth iddynt godi. Mae'r consortia rhanbarthol wedi cyflwyno cynlluniau gweithredu cadarn ar gyfer dysgu proffesiynol sy'n dangos sut mae arloeswyr a'u partneriaid yn cefnogi eu gwaith i ddatblygu ystod o weithgareddau dysgu proffesiynol er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn bwrw gwreiddiau mewn ysgolion.

Rydym wrthi'n trafod ag Estyn werthusiad o ansawdd y ddarpariaeth dysgu proffesiynol sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd gan y consortia gyda'r ysgolion arloesi. Bydd yr adolygiad hwn hefyd yn gyfle i ystyried sut y bydd y ddarpariaeth dysgu proffesiynol newydd yn arfogi ymarferwyr i sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn bwrw gwreiddiau.

Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon

Mae'r Pwyllgor yn nodi sylwadau adolygiad yr Athro Furlong o Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon, sef nad yw'r trefniadau presennol yn ddigonol i baratoi athrawon ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd a ragwelir yn Dyfodol Llwyddiannus. Rydym yn croesawu'r camau gan Lywodraeth Cymru i ddiwygio'r rhaglenni addysg a hyfforddiant cychwynnol ac yn credu y dylai proses cynllunio'r cwricwlwm lywio hyn yn gryf wrth i'r gwaith ar y ddwy agenda hon fynd rhagddynt.

Byddaf yn canolbwyntio ar sicrhau bod y rhaglen diwygio addysg yn cael ei rhoi ar waith yn dda. Dim ond os bydd ein Haddysg Gychwynnol i Athrawon yn rhoi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r awydd i athrawon arwain y newid sy'n ofynnol y gall y proffesiwn addysgu gyfrannu'n briodol at godi safonau addysg yn ein hysgolion, yn unol â gweledigaeth *Dyfodol Llwyddiannus*.

Mae fy swyddogion wedi parhau â rhaglen ymgysylltu â rhanddeiliaid. Ar 13 Gorffennaf 2016, gwahoddwyd Sefydliadau Addysg Uwch i drafod y cynnydd a datblygu Safonau Addysgu Proffesiynol newydd gyda'r Athro Mick Waters. Y Safonau Addysgu Proffesiynol newydd fydd y conglaen ar gyfer proffesiynoldeb newydd ymhlith athrawon, nid dim ond o ran addysg gychwynnol i athrawon ond hefyd o ran eu dysgu proffesiynol gydol eu gyrfa.

Rhoddais ddatganiad am y Rhaglen Newid Addysg Gychwynnol i Athrawon ym mis Medi pan gyhoeddais hefyd yr ymgynghoriad ffurfiol ynghylch y Meini Prawf Achredu ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon a chynigion ar gyfer cryfhau swyddogaethau Cyngor y Gweithlu Addysg. Dechreuodd yr ymgynghoriad hwn ar 26 Medi a daeth i ben ar 14 Tachwedd. Cyhoeddwyd dadansoddiad llawn o'r ymatebion ar 12 Ionawr.

Ysgrifennodd swyddogion at yr holl Sefydliadau Addysg Uwch ar 09 Rhagfyr yn eu gwahodd yn ffurfiol i gyflwyno Datganiad o Fwriad i gynnig rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon o dan y trefniadau newydd erbyn 06 Ionawr. Gofynnwyd iddynt nodi eu rhaglenni diwygiedig, eu darpar bartneriaethau a manylu am sut yr oeddent yn bwriadu mynd ati i ddarparu rhaglenni astudio Addysg Gychwynnol i Athrawon o safon, rhai blwyddyn i ôl-raddedigion a rhai tair blynedd i israddedigion. Cafwyd deg ymateb yn mynegi Datganiad o Fwriad.

Gwahoddodd fy swyddogion bob Sefydliad Addysg Uwch i gyfarfod ar 13 Ionawr o dan gadeiryddiaeth yr Athro John Furlong. Roedd y cyfarfod yn gyfle i gael adborth cynnar am y newidiadau arfaethedig i'r meini prawf achredu ar ôl yr ymgynghori ac egluro'r broses a'r amserlenni ar gyfer y camau nesaf.

Prif bwrpas diwygio Addysg Gychwynnol i Athrawon yw gwella ansawdd y ddarpariaeth a gynigir a pharatoi athrawon y dyfodol yn well i ddatblygu'r sgiliau ar gyfer addysgu, er mwyn i ddysgwyr ddysgu. Rwy'n sylweddoli bod yr amserlen yn dynn ar gyfer cyflawni'r rhaglen Diwygio Addysg Gychwynnol i Athrawon. Dros yr ychydig wythnosau diwethaf, mae Fforwm Arbenigwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon wedi ystyried pob Datganiad o Fwriad ac wedi cynnal cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb â phawb sydd wedi cyflwyno datganiad, gan roi adborth cynnar iddynt i lywio'r camau nesaf.

Gosodwyd y Gorchymyn sy'n trosglwyddo swyddogaeth achredu oddi wrth CCAUC i Gyngor y Gweithlu Addysg ym mis Ionawr a threfnwyd i gynnal y ddadl ar 14 Chwefror. Ar ôl i'r Rheoliadau ddod i rym ym mis Mawrth, bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn ysgrifennu at bob Partneriaeth a gyflwynodd Ddatganiad o Fwriad yn nodi'r amserlen a'r gofynion os ydynt yn bwriadu cyflwyno rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon i'w hachredu erbyn 01 Rhagfyr 2017.

Y berthynas ag asesu ac atebolrwydd

Asesu

Nododd y Pwyllgor fod Ysgrifennydd y Cabinet wedi disgrifio'r senario fel hyn - nid dewis rhwng ai'r cyw ynteu'r wy sy'n dod gyntaf yw hi - mae'r cyw a'r wy yn dod ar yr un pryd oherwydd bod angen datblygu'r ddwy elfen. Nid ydym yn anghytuno â hyn, ond rydym yn ei gweld yn dipyn o her. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru am sut yn union y mae'n bwriadu rheoli diwygio'r cwricwlwm yn llwyddiannus gan newid yr asesu a'r atebolrwydd ar yr un pryd. Mae hyn yn bwysicach byth o gofio bod yr undebau a'r consortia'n anghytuno ynghylch lle asesu yn y broses. Mae'r Pwyllgor yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru ddatrys unrhyw gamddealltwriaeth neu densiwn o'r fath a allai fod yn rhwystr rhag rhoi'r diwygiadau ar waith yn llwyddiannus.

Yn fy llythyr blaenorol, nodais fod y cwricwlwm a'r asesu'n dibynnu ar ei gilydd, a bod yn rhaid eu hystyried yn becyn y mae angen eu cydlynu'n agos. Nid yw'r gwledydd sydd wedi diwygio'u cwricwlwm gan anwybyddu'r gofyniad wedi llwyddo i wireddu eu dyheadau.

Rwy'n ei chael yn anodd iawn deall pam y byddai undebau'r penaethiaid ac arweinyddion ysgolion yn dymuno gwthio'r cwricwlwm newydd i system asesu sydd wedi'i datblygu ymlaen llaw, er bod gennym gyfle i lunio'r ddwy system ochr yn ochr, a thrwy hynny sicrhau eu bod yn gyson â'i gilydd. I ddyfynnu Dylan Wiliam, mae asesu'n was da ond yn feistr ofnadwy; nid ydym yn awyddus i fod mewn sefyllfa lle bydd cyfyngiadau gofynion asesu'n llestair i'r cwricwlwm.

Rydym wedi cytuno y dylai asesu ffurfiannol fod yn rhan hanfodol a naturiol o'r broses addysgu ac y dylid rhoi blaenoriaeth i hynny yn y trefniadau y byddwn yn eu rhoi ar waith. Rydym hefyd wedi cytuno ar ddibenion addysg ac wedi sefydlu'r nodweddion rydym yn rhoi gwerth arnynt ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc a'r hyn rydym yn dymuno'i gael iddynt, a hwythau'n ddinasyddion yr 21^{ain} ganrif. Wrth inni gamu i gyfnod nesaf yr agenda ddiwygio, bydd yr Ysgolion Arloesi, gan gadw mewn cof yr egwyddorion asesu sydd wedi'u datblygu, yn dechrau llunio pob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad.

Gan weithio ochr yn ochr â hwy, bydd ymchwilwyr o Brifysgol Glasgow a Phrifysgol Cymru'r Drindod Dewi Sant yn ymgysylltu â dysgwyr ac ymarferwyr i ddatblygu cysyniadaeth a dealltwriaeth ar y cyd ynghylch camau cynnydd y cwricwlwm. Gyda'i gilydd, byddant yn nodi'r hyn sy'n angenrheidiol (o ran trothwyon gwybodaeth a dealltwriaeth, sgiliau, priodweddau a galluoedd) er mwyn sicrhau bod dysgu plant a phobl ifanc mewn gwirionedd yn camu ymlaen mewn ffordd ystyrlon.

Drwy gydol y gwaith datblygu, bydd Grŵp y Cwricwlwm ac Asesu'n gyfaill beirniadol, gan gynnig cefnogaeth a her drwy gydol y broses. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys academyddion sydd wedi treulio blynyddoedd lawer yn sbarduno proses ddiwygio'r system yng Nghymru a'r tu allan iddi, a bydd grŵp llywio'r Arloeswyr yn ymuno â hwy. Rwy'n gwbl hyderus y bydd eu trosolwg a'u cyfraniad yn sicrhau bod y trefniadau a gyflwynir gennym ar gyfer y cwricwlwm ac asesu'n addas at y diben ac y byddant yn cael eu cysoni mewn ffordd adeiladol.

Atebolrwydd

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut mae newid camau atebolrwydd i sicrhau cyn lleied o ganlyniadau anfwriadol â phosibl, er enghraifft ffrwyno arloesi. Mae'r Pwyllgor yn sylweddoli nad oes fawr o fudd newid trefniadau atebolrwydd yn frysiog yn awr ac yna'u newid eto ar gyfer y cwricwlwm newydd. Serch hynny, credwn fod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau cydbwysedd rhwng addasu'r trefniadau atebolrwydd yn awr er mwyn i'r Ysgolion Arloesi deimlo'n rhydd i fwrw ati i wneud eu gwaith, a gweithio ar ddiwygiadau untro tymor hir sy'n para ac sy'n cydweddu â'r cwricwlwm newydd.

Mae Dyfodol Llwyddiannus yn argymhell sawl peth sy'n cynnig gweledigaeth wahanol ar gyfer atebolrwydd, yn dibynnu ar y pedwar diben. Wrth symud at amgylchedd lle bydd y penderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud yn lleol, mae'n hanfodol osgoi'r effeithiau llurguniol a allai godi yn sgil gofynion allanol ynghylch perfformiad ac adrodd. Bydd hyn yn golygu symud oddi wrth sefyllfa lle bydd Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth am berfformiad plant a phobl ifanc ar sail ysgolion unigol at ddibenion atebolrwydd gan roi pwyslais o'r newydd ar asesu ar gyfer dysgu fel nodwedd hanfodol ac anhepgor o ddysgu ac addysgu.

Amserlen weithredu

Mae'r Pwyllgor yn nodi cynlluniau Llywodraeth Cymru i rannu'r syniadau cychwynnol am strwythur arfaethedig pob Maes Dysgu a Phrofiad yn ystod hydref 2017 a bydd yn dymuno dychwelyd yn ddiweddarach eleni at drafod yn benodol a yw'r amserlen weithredu ar y trywydd iawn.

Byddaf yn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybod am ein cynnydd ac rwy'n croesawu ei ymrwymiad a'i gyfraniad parhaus at ddiwygio addysg.

Cynllunio wrth gefn

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymwneud y proffesiwn â chynllunio'r cwricwlwm newydd ac mae'n cymeradwyo natur arloesol Rhwydwaith yr Ysgolion Arloesi. Rydym yn gobeithio'n fawr y bydd yn llwyddo, er ein bod yn poeni am y canlyniadau pe bai'r model hwn yn methu â sicrhau'r hyn a ddymunir: sef y bydd gennym gwricwlwm newydd â strwythur clir, sy'n fodern ac yn addas at y diben ar gael erbyn mis Medi 2018. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru wneud rhywfaint o waith cynllunio wrth gefn a sicrhau bod y rhaglen yn ddigon cydnerth i liniaru'r risg hon.

Uchelgais *Cwricwlwm i Gymru - cwricwlwm am oes* yw y gallai'r cwricwlwm newydd "fod ar gael i ysgolion mor gynnar â mis Medi 2018". Mae angen gwneud llawer o waith ar y cyd ag Ysgolion Arloesi, a byddwn yn adolygu'r dyddiad hwn wrth i'r gwaith ar bob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad fynd rhagddo. Mae'r diwygiadau hyn yn hynod o bwysig i'r plant yn ein hysgolion, ac felly rwy'n benderfynol o dreulio'r amser sy'n angenrheidiol i sicrhau eu bod yn iawn.

Rwy'n gwerthfawrogi'r pryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor, ac hoffwn sicrhau Aelodau unwaith eto bod ein cynllun cyflawni'n cynnwys trefniadau wrth gefn, ac mae hynny wedi bod yn wir o'r dechrau. Fy uchelgais yw y bydd pob ysgol yn defnyddio Meysydd Dysgu a Phrofiad erbyn 2021 fel rhan o'r cwricwlwm newydd i gefnogi dysgu ac addysgu. Mae Ysgolion Arloesi wth galon y broses gynllunio a datblygu. Maent yn profi syniadau gyda'u cydweithwyr proffesiynol i sicrhau bod yr hyn a gaiff ei ddatblygu yn ymarferol, ac bydd y model yn seiliedig ar ethos cryf o gydweithio rhwng ysgolion. Byddaf yn diweddarau'r Aelodau am unrhyw newidiadau pwysig i'r amserlen.

Er fy mod yn sylweddoli bod y Pwyllgor yn poeni am y ffordd yr ydym yn mynd ati i gynllunio'r cwricwlwm ac asesu, nid ydym yn gofyn i Ysgolion Arloesi gyflwyno'r trefniadau newydd ar eu pen eu hunain. Maent wrth galon partneriaeth Cymru gyfan sy'n cynnwys awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, Estyn, Sefydliadau AB, Sefydliadau AU a llawer mwy.

Fel y soniais eisoes, rwyf hefyd wedi dwyn ynghyd grŵp o arbenigwyr uchel eu parch ym maes cynllunio'r cwricwlwm ac asesu i weithio ochr yn ochr â'r Ysgolion Arloesi ac i'w cefnogi. Mae gan aelodau Grŵp y Cwricwlwm ac Asesu brofiad cenedlaethol a rhyngwladol ym maes diwygio addysg. Eu rôl yw helpu gyda'r gwaith o gynllunio'r fframwaith newydd ar gyfer y cwricwlwm ac asesu er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn cadw'n driw at egwyddorion *Dyfodol Llwyddiannus'* a chefnogi gweithredu'r diwygiadau sydd yn *Cwricwlwm i Gymru: Cwricwlwm am Oes*.

Wrth i'r gwaith fynd rhagddo, rydym wedi cyd-arfarnu'n barhaus ymhle rydym arni a'r hyn y mae angen inni ei newid er mwyn cryfhau'r gweithredu. Er enghraifft, wrth adolygu ein cynnydd yn yr hydref, penodwyd Ysgolion Arloesi ychwanegol i helpu i gefnogi'r gwaith cynllunio ar gyfer y Meysydd Dysgu a Phrofiad.

Byddaf yn parhau i wrando ar ein hymarferwyr ac ar ein partneriaid cyflawni ac yn defnyddio'r hyblygrwydd a'r trefniadau wrth gefn sydd ar gael imi os bydd angen.

Cynnwys y cwricwlwm

Mae'r Pwyllgor yn credu y byddai materion o'r fath yn cydweddu'n addas â Maes Dysgu a Phrofiad lechyd a Lles ac mae'n pwysu ar i hyn gael ei ystyried yn ofalus wrth gamu ymlaen i gyfnodau cynllunio mwy manwl y Meysydd Dysgu a Phrofiad. Rydym hefyd yn cydnabod y galw am ragor o sylw i hanes Cymru, ac yn wir i hanes rhanbarthol a lleol, a chredwn y dylid ystyried hyn wrth gynllunio Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y bydd rhagor o gyfleoedd i roi sylwadau am gynnwys y Meysydd Dysgu a Phrofiad wrth i bethau ddod yn eglurach yn hwyrach eleni.

Rwy'n falch bod y Pwyllgor yn deall ymhle rydym arni o ran proses cynllunio'r cwricwlwm. Wrth i Elfen 2 y gwaith hwn fynd rhagddo ac wrth i'r Meysydd Dysgu a Phrofiad ymffurfio, byddwn yn symud at gam ymgysylltu newydd er mwyn sicrhau bod ein holl randdeiliaid yn cael cyfle i ddeall sut olwg a fydd ar y meysydd, sut y maent yn cydweddu a'i gilydd a hefyd eu bod yn cael cyfle i gyfrannu at hyn. Bydd Elfen 2 yn nodi'r meysydd hynny yn y cwricwlwm y mae angen rhoi rhagor o sylw iddynt yn ystod Elfen 3 (datblygu manwl ar y Meysydd Dysgu a Phrofiad) yn ogystal â'r arbenigedd i ddatblygu'r rhain yn briodol.

Drwy weithio gyda'r Ysgolion Arloesi a'r consortia rhanbarthol, byddwn yn rhannu dogfennau â rhanddeiliaid ac ysgolion cyn gynted ag y bo modd yn ystod y broses ddatblygu.

Trefniadau deddfwriaethol a phontio

Deddfwriaeth

Mae'r pwyllgor yn credu y bydd gofyn ystyried yn ofalus y penderfyniadau ynghylch lefel y ddeddfwriaeth a ddefnyddir i sefydlu'r cwricwlwm newydd. Bydd gofyn rhoi digon o amser i gyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol, craffu arni a deddfu, ac mae angen cynnwys hyn i gyd yn yr amserlen.

O ran deddfwriaeth, bydd penderfyniadau ynglŷn â lefel y ddeddfwriaeth a ddefnyddir i sefydlu'r cwricwlwm newydd yn cael eu hystyried yn ofalus, gan ymgynghori ag Aelodau'r Pwyllgor a'r rhanddeiliaid. Rhagwelir y bydd angen i'r ddeddfwriaeth angenrheidiol fod ar waith erbyn mis Medi 2021. Byddaf innau hefyd am sicrhau bod digon o amser yn yr amserlen i ganiatáu ar gyfer cyflwyno, craffu a deddfu, a chan ystyried yr amserlenni ar gyfer datblygu'r cwricwlwm newydd.

Y goblygiadau i bobl ifanc sy'n ymgeisio am gymwysterau yn ystod y cyfnod pontio

Mae'r Pwyllgor yn pwysu ar Lywodraeth Cymru i ystyried yn ofalus y goblygiadau ar gyfer pobl ifanc sy'n rhan o system bresennol yr ysgolion a'r posibilrwydd iddynt ddiodeff wrth gael eu dal rhwng dwy fersiwn eithaf gwahanol o'r cwricwlwm. Mae hyn yn peri risg benodol i'r disgyblion sydd ar hyn o bryd mewn ysgolion uwchradd ac a fydd yn sefyll eu TGAU cyn, yn ystod ac yn syth ar ôl y cyfnod pontio. Rydym yn falch bod hyn yn fater sy'n cael sylw ac yn awyddus i weld hyn yn parhau o ddifri.

Rwy'n falch bod y Pwyllgor yn dangos pwysigrwydd sicrhau nad yw'r plant a'r bobl ifanc sydd yn system yr ysgolion ar hyn o bryd o dan anfantais yn sgil y newidiadau yr ydym yn eu cyflwyno.

Yn ystod y cyfnod cynllunio, byddwn yn parhau i weithio gyda'r Ysgolion Arloesi a Cymwysterau Cymru i ystyried yr hyn y gallai'r newidiadau hyn ei olygu i ddysgwyr sydd ran o'u ffordd drwy gwrs astudio ar gyfer cymhwyster. Byddwn am sicrhau nad yw myfyrwyr sy'n ymgeisio am gymwysterau newydd yn cael mantais nac ychwaith o dan anfantais o'u cymharu â'r rheini sydd wedi astudio ar gyfer yr hen gymhwyster.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink, reading "Kirsty Williams". The signature is written in a cursive style with a large initial "K".

Kirsty Williams AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education